












10







Roedd y ffôn yn canu.

“Helo,”
meddai mam.

“Helo, Siân.
Emlyn yma.
Dw i’n ffonio o
America.”

“Emlyn! Sut wyt ti?”
meddai mam.

“Dw i’n fendigedig,
diolch.

Dw i’n dod i Gymru
ar wyliau.”

Teithiodd Wncwl Em i
Gymru ar awyren Jet
Pan-Am. Roedd ganddo
focsys - bocsys mawr,
bocsys bach, bocsys
hir, bocsys sgwâr.

“Tacsi!” meddai Wncwl
Em.

I mewn â fe i’r tacsi
gyda’r bocsys mawr,
bocsys bach, bocsys
hir, bocsys sgwâr.

Roedd Wncwl Em yn
anferth. Roedd e’n
gwisgo het gowboi
frown, crys coch gyda
smotiau du, tei melyn
gyda llun buwch, siwt
wen, bŵts cowboi
brown a modrwy aur
ar bob llaw. Roedd e
fel dyn mewn ffilm.

“Croeso! Croeso!”
meddai’r teulu.

“Hi folks,”
meddai Wncwl Em,
“Sut mae?”

“Bendigedig! Gwych!
Grêt! Da iawn.”

Roedd pawb yn hapus
dros ben.

“Syr, y bocsys,”
meddai dyn y tacsî.

“Yn y garej, plîs,”
meddai Wncwl Em.

“Beth sy yn y
bocsys, Wncwl Em?”
meddai’r plant.

“Wel, biffbyrgyrs
wrth gwrs! Fi ydy
Emlyn Biffbyrgyr
Jones. Ha! Ha! Ha!”

Roedd y plant yn wên
o glust i glust.
Biffbyrgyrs i frecwast.
Biffbyrgyrs i ginio.
Biffbyrgyrs i de ac
i swper.

Biffbyrgyrs Dydd Llun.
Biffbyrgyrs Dydd
Mawrth.

Biffbyrgyrs Dydd
Mercher a Dydd Iau.
Biffbyrgyrs Dydd
Gwener.

Biffbyrgyrs Dydd
Sadwrn ar ôl y sinema.
Biffbyrgyrs Dydd Sul
gyda chacen jam.

Biffbyrgyrs -

yn yr ardd,

ar y bont,

o dan y coed,

ar y cae hoci.

“O, dw i wedi cael
llond bol o fwyta
biffbyrgyrs. Beth
am bitsa?”
meddai mam.

“Beth am fwyta
sosej?”
meddai nain.

Ond roedd y plant yn
hapus iawn yn bwyta
biffbyrgyrs

gyda sôs coch,
gyda sgloodion,
gyda jeli coch a
bara brith.

“Beth am gael
barbeciw ar lan y
môr?”
meddai Wncwl Em.

“Grêt! Ffantastig!
Bendigedig!”
meddai pawb.

Roedd pawb yn hapus
yn y barbeciw ar lan
y môr,
yn bloeddio,
yn dawnsio,
yn jeifio,
yn joio
a c y n b w y t a
biffbyrgyrs.

“Wel, dyma hwyl!”
meddai Wncwl Em.

“Bendigedig! Gwych!
Grêt! Da iawn,”
meddai pawb.

Roedd hi'n amser
mynd adref i America
ar yr awyren Jet
Pan-Am.

“Hwyl fawr, Wncwl
Em. Diolch yn fawr
iawn, iawn am y
biffbyrgyrs!”
meddai pawb.